

AR OSOD drwy tendr

Caffi Glaslyn, Canolfan Hamdden Byw'n Iach Glaslyn,
Porthmadog Gwynedd, LL49 9HW
Gorffennaf - 2022



Adran Tai ac Eiddo

Gwahoddir cynigion i ddarparu gwasanaeth Caffi yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu gwasanaeth o safon uchel am gyfnod o **bum mlynedd**.

Mae Byw'n Iach (y "Landlord") wedi ymrwmo i lwyddiant y ganolfan yn gyffredinol, a bydd yn gweithio gyda'r ymgeisydd llwyddiannus cyn belled â phosib i ddarparu gwasanaeth.

Canolfan Hamdden Glaslyn yw un o'r canolfannau hamdden prysuraf yn y sir, mae hefyd yn ganolbwynt i gymunedau lleol ac mae'r llyfrgell leol wedi eil lleoli yno bellach.

DISGRIFIAD

Mae'r caffeteria wrth ymyl Prif Dderbynfa'r Ganolfan ac yn mesur oddeutu 100 metr sgwâr. Cegin – 4.8m x 2.8m, Storfa 1.4m x 3.1m. Dangosir y gofod wedi lliwio'n goch ar y cynllun amgaeedig.

GWASANAETH

Disgwylir i'r Tenant ddarparu'r gwasanaeth am yr amseroedd isod:

Dydd Llun i Ddydd Gwener 10.00 – 17.00

Dyddiau Sadwrn 10.00 – 13.00

Dyddiau Sul 10.30 – 13.00

Pe bydd Tenant yn dymuno cynnal digwyddiad arbennig yn y gofod, yna byddai rhaid cael caniatâd y Landlord yn gyntaf. Ni ddylai unrhyw ddigwyddiad o'r fath amharu ar y gwasanaethau arlwygo arferol.

CYFNOD / DALIADAETH

Cynigir Tenantiaeth Fusnes **5 mlynedd** o'r dyddiad cychwyn yn **2022** (union ddyddiad i'w gadarnhau). Bydd adolygiad o'r trefniadau ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd, nid oes unrhyw ymrwymiad i ymestyn na adnewyddu'r cytundeb tu hwnt i'r cyfnod pum mlynedd.

DEFNYDD

Fel caffi ar gyfer gwerthu bwyd a diod (dim alcohol) i'w fwyta ar y safle.

Yn unol â Dosbarth **Defnydd Cynllunio A3**.

Oherwydd rheolau cynllunio bydd yr holl fwyd a diod a gynigir i'w fwyta yn yr adeilad a ddim i'w gludo allan.

DEWISIADAU BWYD A DIOD IACH

Rhaid cynnwys darparu dewisiadau bwyd a diod iach yn y fwydlen caffi a gellir dangos tystiolaeth ohonynt yng nghyflwyniad y cynnig ysgrifenedig a thrwy gynnwys bwydlenni enghreifftiol. Dylai bwydlen y caffi ddilyn y safonau yn Safon Prynu'r Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau bwyd ac arlwygo Mae agweddau perthnasol ar y safon wedi'u cynnwys yn **Atodiad A - Canllawiau Maeth, Pris, Canllawiau Lleuedd a Hyrwyddo a Rhestr Wirio Cynaliadwyedd**.

PEIRIANNAU GWERTHU (VENDING)

Bydd Byw'n Iach yn cadw'r hawl i osod peiriannau gwerthu ar y safle ar gyfer defnydd cwsmeriaid yn ystod holl oriau agor y ganolfan.

GLANHAU

Bydd y Tenant yn glanhau'r gofod cyfan yn rheolaidd gan gynnwys yr holl osodiadau a ffitiadau yno, i foddhad y Landlord. Bydd y Tenant yn gyfrifol am gael gwared â'r holl sbwriel o'r safle, gan ei waredu'n ddiogel ym miniau allanol y ganolfan.

ATGYWEIRIO A CHYNNAL A CHADW

Bydd y Tenant yn gyfrifol am;

- Y gegin ac unrhyw gyfarpar arlwygo arall gosodedig.
- Atgyweirio gorffeniadau arwyneb

Cyn cychwyn unrhyw waith atgyweirio a chynnal a chadw, rhaid i'r tenant sicrhau caniatâd y Landlord.

GWASANAETHAU

Mi fydd y gwasanaethau wedi eu mesur a bydd y Tenant bydd yn ysgwyddo cost eu defnydd.

TRETHI

Mae asesiad trethi ar wahân ar gyfer y caffi, y Tenant bydd yn gyfrifol am y costau trethi, mae modd cael manylion am y gwerth trethiannol a'r dreth daladwy trwy gysylltu ag Uned Trethi'r Cyngor a'r (01766) 771000.

YSWIRIANT / INDEMNIAID

Bydd y Tenant yn sicrhau fod ganddynt yswiriant;

- I fodloni Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 neu unrhyw orchymyn statudol arall a wnaed dan y Ddeddf honno neu unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni.
- Atebolrwydd cyhoeddus y Tenant gydag indemniad i'r Landlord o ran hawliadau trydydd parti am ddifrod neu golled a achoswyd o ganlyniad i weithredu neu esgeulustod y Tenant gwerth polisi dim llan nai £2,000,000

DIOGELWCH A RHAGOFALON TÂN

Bydd y Tenant yn cydymffurfio a holl ragofalon diogelwch priodol sydd yn bodoli i'r Ganolfan, gan gynnwys yr holl ragofalon sydd angen i'r Tenant eu cymryd dan unrhyw Ddeddf Seneddol neu Reoliadau neu is-ddeddfau, boed y Landlord wedi rhwymo i'r rhain ai peidio.

DIOGELWCH BWYD

Mae'n ofynnol i'r Tenant a fydd rhedeg busnes bwyd gofrestru gyda'r Cyngor. Mae ffurflenni cofrestru ar gael ar [wefan](#) y Cyngor neu drwy gysylltu ar Uned Diogelwch Bwyd ar (01766) 771000.

ARWYDDION / DWYIEITHRWYDD

Bydd gofyn i'r Tenant arddangos pob arwydd a bwydlen, ac unrhyw ddeunydd arall ysgrifenedig yn y Gymraeg (yn gyntaf) a'r Saesneg (yn ail) yn unol ag arwyddion eraill y ganolfan, a hynny ar eu traul eu hunain.

Rhaid sicrhau caniatâd y Landlord ar gyfer unrhyw arwyddion, rhestrau prisiau neu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig arall sydd yn cael eu harddangos gan y Tenant. Rhaid i'r Tenant cydymffurfio gyda pholisi iaith y Landlord.

AMODAU ERAILL

Atodir copi drafft o'r brydles fydd yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus. Dylai'r ymgeisydd fodloni ei hunain ynglŷn â'i oblygiadau ac ystyried cymryd cyngor proffesiynol addas.

Y TALIAD

Dylid cyflwyno tendrau ar sail taliadau blynyddol ar gyfer y consesiwn (Taliad Blwyddyn 1, Taliad Blwyddyn 2, Taliad Blwyddyn 3, ac ati). Codir tâl ar y Tenant ymlaen llaw bob chwarter.

CYNIGION

Mae'n ofynnol i bob cais gael ei gyflwyno yn yr amlen dendr amgaeedig, a dylid cynnwys y dogfennau canlynol:-

- Ffurflen dendr wedi ei chwblhau.
- Cynllun Busnes Syml
- Bwydlenni Enghreifftiol

Maen hanfodol eich bod yn argraffu/defnyddio'r label cyfeiriad darparwyd isod i gyfeirio'r amlen er mwyn sicrhau nad yw'r cynigion yn cael eu hagor cyn y dyddiad cau. Rhaid i'r cais gyrraedd - **Ystafell Bost, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH dim hwyrach na 14:00 ar ddydd Iau 18fed o Awst 2022** . Ni ddylai'r amlen gael ei marcio na'i newid mewn unrhyw fodd i'w gwneud yn wahanol. Rhaid i'r ymgeisydd dalu unrhyw dâl postio.

[Cliciwch yma i argraffu ffurflen gais](#)

[Cliciwch yma i argraffu label](#)

TAW

Ni ddylai'r tendr gynnwys Treth Ar Werth. Cyfrifoldeb y Tenant yw talu ac adennill unrhyw dreth y mae'r Tenant yn gyfrifol amdano.

CYFLAWNDER Y TENDR

Dylai pob ymgeisydd ymweld â'r safle, a'i archwilio cyn tendro, er mwyn bodloni eu hunain ynglŷn â holl amodau a chyfyngiadau lleol sy'n effeithio ar y contract. Ni chaniateir unrhyw hawliad a fyddai'n dilyn o beidio â gwneud hyn.

GWRTHODIR YMRWYMIAD

Nid yw Byw'n lach yn ymrwymo i dderbyn y tendr uchaf nac unrhyw dendr, a ni fydd gan yr ymgeisydd unrhyw hawl i ofyn am dreuliau nac unrhyw gostau a gafwyd wrth baratoi'r tendr.

YMHOLIAD AU/ ENQUIRIES

Cysylltwch gyda stadau@gwynedd.llyw.cymru

Contact estates@gwynedd.llyw.cymru